**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0189/24

Y Gw. Anrh. Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

Llywydd@senedd.wales

19 Mawrth 2024

Annwyl Elin

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 01 Ebrill 2024, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn er gwybodaeth ichi.

**Cefndir**

Ar hyn o bryd, mae gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau a bennir gan Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 ("Gorchymyn 2023") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023.

Corff cynghori annibynnol a sefydlwyd o dan Adran 2(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 gan Orchymyn Panel Cynghori Amaethyddol Cymru (Sefydlu) 2016 ar 1 Ebrill 2016 yw Panel Cynghori Amaethyddol Cymru ("y Panel"). Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys adolygu cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill a hefyd gefnogi sgiliau a datblygu gyrfa o fewn y sector amaethyddol.

Penderfynodd y Panel gynyddu cyfraddau tâl isaf gweithwyr amaethyddol ac ymgynghorodd ynghylch y cynigion yn ystod hydref 2023. O ganlyniad, cafodd Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024") ei baratoi, sy'n:

a) cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer pob gradd a chategori o weithiwr amaethyddol
b) cynyddu'r holl lwfansau;
c) newid y gyfradd oramser a delir i weithwyr amaethyddol ar sail wir gyfradd cyflog fesul awr y gweithiwr amaethyddol, yn hytrach na'r gyfradd tâl isaf fesul awr a nodir yn y Atodlen 1; a
d) gwneud nifer o newidiadau i symleiddio'r Gorchymyn 2023 drwy gael gwared ar ddarpariaethau sy'n ailadrodd darnau o ddeddfwriaeth arall.

Cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau Gorchymyn 2024 gan fod yn rhaid wrth graffu cyfreithiol hir ar y newidiadau i'w symleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effeithiau cyfreithiol cywir.

Bwriad y Panel yw i Orchymyn 2024 ddod i rym ar 1 Ebrill 2024 er mwyn alinio'r codiadau i'r Isafswm Cyflog Amaethyddol â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a fydd hefyd yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

Nes y daw Gorchymyn 2024 i rym, bydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau i gael eu talu yn unol â Gorchymyn 2023. Er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl a sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau gofynnol y cytunwyd arnynt gan y Panel, cynigir na fyddwn yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod wrth wneud Gorchymyn 2024 er mwyn iddo allu dod i rym ar 1 Ebrill.

Credir bod angen a chyfiawnhad peidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yng ngoleuni'r amgylchiadau anochel sydd wedi gohirio'r broses. Rwyf hefyd o'r farn bod cyfiawnhad dros leihau unrhyw oedi pellach o ran cynyddu'r cyfraddau cyflogau amaethyddol am y byddai'n lleihau'r amser y bydd gweithwyr amaethyddol sy'n dod o dan yr Isafswm Cyflog Amaethyddol dan anfantais mewn perthynas â'u dyfarniadau cyflog ac yn ei gwneud yn haws i gyflogwyr amaethyddol gydymffurfio.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn wedi'i osod, gyda Gorchymyn 2024, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**